

Rhaglen Gyflawn



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD GWENER, 30AIN GORFFENNAF, 2021

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - er mwyn cael mynediad cysylltwch â
NatalieLloydJones@Gwynedd.Llyw.Cymru**

Pwynt Cyswllt

Natalie Lloyd Jones

01286 679490

NatalieLloydJones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Sadwrn, 24 Gorffennaf 2021)

IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Robert G Parry
Greg Robbins
Gareth Wyn Griffith
Brian Jones
David Bithell

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Aelod Cyswllt o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Cynghorydd Ian Roberts

Cyngor Sir y Fflint

Swyddogion yn bresennol

Annes Sion
Emlyn Jones
Huw Percy
Geraint Edwards
Darren Williams
Stephen Jones
Dafydd Wyn Williams
Iwan Prys Jones

Iwan G. Evans
Dafydd L. Edwards

Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Bwrdd Uchelgais Economaidd
Gogledd Cymru
Swyddog Monitro
Swyddog Adran 151

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw datganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

4 - 7

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 14 o Fai 2021 fel rhai cywir.

5. DIWEDDARIAD BYSIAU RHANBARTHOL

8 - 12

Adroddiad gan grŵp swyddogion technegol.

6. ADFER TRAFNIDIAETH CYHOEDDUS ÔL-COVID

Cyflwyniad gan Trafnidiaeth i Gymru.

Eitem 4

IS FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH 14 Mai, 2021

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cyngorwyr - David Bithell (Cyngor Wrecsam), Robert G Parry (Cyngor Ynys Môn), Greg Robbins (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Gareth Wyn Griffith (Cyngor Gwynedd), Brian Jones (Cyngor Sir Ddinbych) a Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint)

Swyddogion yn Bresennol – Darren Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Huw Percy (Cyngor Ynys Môn), Stephen Jones (Cyngor Sir y Fflint), Dafydd Wyn Williams (Cyngor Gwynedd), Iwan G D Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Arweiniol), Peter Daniels (Cyngor Sir Ddinbych) Lowri Haf Evans ac Natalie Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth – Awdurdod Arweiniol)

Eraill a wahoddwyd - Iwan Prys Jones (Bwrdd Uchelgais Economaidd), Lee Robinson (Trafnidiaeth Cymru)

1. YMDDIHEURIADAU

Geraint Edwards (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Emlyn Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Dafydd Edwards (Swyddog Cyllid – Awdurdod Arweiniol), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganwyd buddiant personol gan Y Cyngorydd David Bithell ar Eitem 3 gan ei fod yn gweithio i Network Rail.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw fater brys.

4. COFNODION

Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar y 7fed Rhagfyr, 2020 fel rhai cywir yn ddarostyngedig:

- Cywiro cofnodion Saesneg i nodi mai i Gyngor Sir Ddinbych ac nid Cyngor Sir y Fflint y mae Peter Daniels yn gweithio.

5. DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD AR WAITH BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU A'R GRŴP TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cadeirydd yn diweddarar yr Is-Fwrdd ar y ffrydiau gwaith a'u cynnydd dros y ddeufis diwethaf.

Trafodwyd y prif bwyntiau gan gynnwys y canlynol;

- Bod yr Is-Fwrdd i gyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd dwywaith y flwyddyn i'w diweddar ar y gwaith.
- Rhoddwyd trosolwg ar y sefyllfa gyda'r Cyd Bwyllgorau Corfforaethol gan nodi y byddant yn trafod materion mwy cyfyng nag a thrafodwyd yn yr Is-Fwrdd hwn.
- Nodwyd eu bod yn disgwyl am arweiniad pellach yn dilyn yr etholiadau seneddol diweddar

Diolchwyd am yr adroddiad.

Ni chafwyd sylwadau pellach.

6. DIWEDDARIAD BYSIAU RHANBARTHOL A METRO GOGLEDD CYMRU

Cyflwyniad gan Lee Robinson, TfW.

Metro Gogledd Cymru

Rhannwyd cyflwyniad gyda'r Is-Fwrdd yn egluro'r darlun cenedlaethol ac yna ffocysu ar Ogledd Cymru a'r prosiectau sydd ar waith. Eglurwyd cyd-destun y rhaglen Metro Gogledd Cymru a thywyswyd yr Is-Fwrdd drwy'r amserlen arfaethedig a'r parthau dan sylw.

Trafodwyd y prif amcanion ynghylch Metro gogledd Cymru gan gynnwys:

- Bod angen diwygio ambell i amserlen bresennol gan eu bod yn gyfyng
- Nifer o adrannau gydag arwyddion wedi dyddio
- Ar y cyfan, mae cyflymdra isel ar y lein
- Bod angen gwerthuso cyflwr presennol asedau sy'n ymwneud a'r Metro
- Nodi bod rhai gorsafoedd yn parhau i fod yn anhygyrch
- Croesfannau rheilffordd yn amharu ar y gallu i gynnal trenau sy'n rhedeg yn gyflymach ac yn amlach.

Amlygwyd y camau nesaf fel a ganlyn:

- Gwaith parhaus gydag Network Rail er mwyn gwerthuso croesfannau rheilffordd a chyfarch yr anghenion yn y gobaith o gyrraedd datrysiad parhaol i'r sefyllfa.
- Gwelliannau i ddod er enghraifft yn Shotton a Glannau Dyfrdwy er mwyn cynyddu cynhwysedd.
- Dealltwriaeth o pan ddefnyddir ceir fel modd trafndiaeth wrth deithio rhwng Gogledd Cymru a dinasoedd fel Manceinion. Archwilio cysylltiad gyda HS2.
- Archwilio llefydd lle gallai addasu'r ddarpariaeth heb angen newid sylweddol i'r isadeiledd, er enghraifft o amgylch Gaer a Llandudno.
- Archwilio estyniad gwasanaeth yn llefydd megis Caernarfon a Lein Amlwch.

Bysiau Rhanbarthol

Aethpwyd ati i drafod materion ynghylch bysiau rhanbarthol, gan dynnu sylw at y prif egwyddorion fel a ganlyn:

- Awdurdodau lleol wedi cytuno mai prif amcan yw cynyddu defnydd ar y rhwydwaith bysiau.

- Amlygwyd yng Ngogledd Cymru mewn sawl ardal nad oedd dewis amgen gan ddefnyddwyr a dyna pam mae cyfrannau uchel o ddefnyddwyr i'w gweld.
- Canfyddiad yw cyflwyno'r rhwydweithiau mewn modd sy'n caniatáu gwella cysylltedd gan fod y rhwydwaith mor gymhleth.
- Trefnwyd cytundebau tocynnau er mwyn hwyluso prynu tocynnau, i gael mynediad at ddata defnyddwyr, ac i wella effeithlonrwydd.
- Soniwyd am brosiectau traws Gogledd Cymru mewn ardaloedd megis Bangor, Prestatyn a Chaergybi.
- Nodwyd bod gwaith yn digwydd gydag Awdurdodau Lleol er mwyn adnabod safleoedd posib Parcio a Theithio megis Bangor, Rhyl a Chyffordd Llandudno a fyddai hefyd yn cael effaith bositif ar y Parc Cenedlaethol gan leihau'r problemau parcio.
- Eglurwyd bod cynllun peilot ar waith er mwyn cyfyngu prisiau tocynnau
- Cwmni bysiau Traws Cymru yn edrych ar ffyrdd o ganiatáu integreiddio gyda'r trenau er mwyn hwyluso teithio.

Cododd y sylwadau isod yn ystod y drafodaeth:

- Gofynnwyd y Cadeirydd am fwy o wybodaeth ynghylch y raddfa amser tebygol ar gyfer y camau nesaf.
- Mynegwyd un aelod bod angen gweithio ar frandio Metro Gogledd Cymru er mwyn ei hyrwyddo.
- Cytunwyd bod gwasanaeth amserlennu yn bwysig iawn pan mae nifer uchel o ddefnyddwyr er mwyn cadw hyder yn y gwasanaeth
- Gofynnwyd a oes unrhyw gynlluniau i addasu'r weledigaeth wrth i'r gweinidog trafndiaeth newydd ymgymryd yn ei swydd.
Holwyd aelod ynghylch cyllid ac os oedd cadarnhad o gyllid tymor hir er mwyn ariannu'r prosiectau sydd ar y gweill
- Nodwyd y byddai cysylltiadau o reilffordd Bangor yn gwella rhwydwaith teithio nifer o drigolion, gan gynnwys hwyluso'r daith i'r gweithle neu Ysgol/Coleg.
- Ategwyd hyn i nodi yn sicr nad diwallu anghenion ymwelwyr yn unig sydd angen a phwysleisiwyd pwysigrwydd diwallu anghenion lleol
- Mynegwyd diddordeb mewn cydweithio efo'r Parc Cenedlaethol i fonitro sefyllfa trafndiaeth yn Eryri. Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod aelodau'r Is-Fwrdd efo mewnbyn yn nhrafodaethau.
- Diolchwyd Lee Robinson am yr adroddiad sy'n amlygu faint o waith sydd yn digwydd o fewn y meysydd trafndiaeth.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod nodwyd:

- Y byddai modd sicrhau cysondeb gyda'r elfen marchnata er mwyn amlygu cysyniad o Fetro Gogledd Cymru.
- Mynegwyd nad oedd bwriad i newid cyfeiriad y gwaith arfaethedig na'r ddamcaniaeth bresennol wedi i Ken Skates sefyll i lawr fel gweinidog dros yr Economi, Trafndiaeth a Gogledd Cymru.
- Ynghylch cyllid, nodwyd nad oedd sicrwydd pendant i gyllido'r prosiectau dan sylw, fodd bynnag mae cynllun 5 mlynedd mewn egwyddor yn awgrymu y bydd cyllid ar gael.
- Cyfeiriwyd at faniffesto'r Blaid Lafur ynghylch Trafndiaeth, yn arbennig o amgylch gwella trafndiaeth yn y Gogledd.

- Teithio actif yn bwysig iawn ac mae angen edrych ar ffyrdd i ganiatáu mynediad at orsafoedd a threnau ar feic neu ar droed.

Awgrymwyd bod angen cyfarfod arall yn yr Haf cyn y cyfarfod nesaf arfaethedig yn yr Hydref ar gyfer trafod blaenoriaethau'r Is-Fwrdd.

7. EITEM ER GWYBODAETH - DATGARBONEIDDIO TRAFNIDIAETH A DIWEDDARIAD HWB HYDROGEN

Cyflwynwyd yr eitem yma er gwybodaeth yn unig.

Croesawyd yr adroddiad gan nodi 'r cyfleoedd a swyddi a ddaw yn sgil datblygiadau gorsafoedd llenwi Hydrogen.

Ategwyd y byddai cerbydau hydrogen at berthynas casglu sbwriel ayyb ar gael erbyn diwedd y flwyddyn

Codwyd y sylwadau isod mewn perthynas â'r adroddiad:

- Nodwyd nad yw aelodau'r Is-Fwrdd yn ymwybodol o'r camau sydd ar y gweill gyda Hydrogen. Ategwyd bod cyfle i sefydlu os oes angen rhanbarthol ar gyfer hydrogen gwyrdd er mwyn adrodd hyn i Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd cyn aelod yr Is-Fwrdd Carolyn Thomas AS, petai fodd iddi fynychu cyfarfodydd fel sylwedydd yn y dyfodol .

Cytunwyd nad oedd gwrthwynebiad, ac ategwyd y byddai'n ddefnyddiol i Aelod Seneddol fynychu.

Dechreuodd y cyfarfod am 11yb a daeth i ben am 12:25pm.



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

ADRODDIAD I'R IS-GRŴP CYFLENWI CLUDIANT

30ain GORFFENNAF 2021

Enw: MATERION BYSIAU RHANBARTHOL
Awdur: PETER DANIELS – CYNGOR SIR DDINBYCH

1. Diben yr Adroddiad

Ystyried effaith yr argyfwng iechyd ar wasanaethau bysiau yn ystod y 18 mis blaenorol ac i ba raddau y gall y rhanbarth ddal i weithio'n agosach yn y dyfodol.

2. Y Penderfyniad a Geisir

Gofynnir i'r Is-grŵp Cyflenwi Cludiant ystyried pa gamau ychwanegol y gallai'r Is-grŵp ddewis eu cymryd, efallai ar gyfer ei gyfarfod ym mis Medi 2021.

3. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol

GWASANAETHAU BYSIAU LLEOL

- 3.1. Bydd yr Aelodau'n gyfarwydd â'r problemau a wynebwyd gan weithredwyr bysiau yn ystod y pandemig a'r ymateb iddo. Yn gryno, bu cyfnodau pan oedd gofyn i weithredwyr bysiau gludo neb ond pobl yn teithio at ddibenion hanfodol, pan ddisgynnodd nifer y teithwyr i ryw 10 y cant o'r rhai sy'n teithio fel arall. Roedd yr adferiad ym mis Awst 2020 yn wan ac yn cael ei rwystro'n gyntaf gan fesurau lleol cyn y cyfnod clo cenedlaethol o fis Rhagfyr ymlaen. Gwaethygydd hyn gan brinderau gyrrwr, yn Arriva yn y Rhyl ac yn enwedig yn Wrecsam, lle'r oedd Arriva'n cludo rhyw bump y cant o nifer arferol y teithwyr.
- 3.2. O fis Ebrill 2021 ymlaen, bu gwasanaethau bysiau ar gael yn fwy cyffredinol a dychwelodd teithwyr ar hyd yr arfordir trefol a Glannau Dyfrdwy i ryw 40 y cant o niferoedd cyn y feirws, gan gyrraedd brig o ryw 70 y cant ar gyfartaledd dros wyliau'r Sulgwyn a disgyn i ryw 60 y cant wedi hynny. Yn gyffredinol mae gwasanaethau gwledig yn gwella'n arafach a bu'r rhai sy'n dibynnu fwyaf ar deithwyr di-dâl yn arbennig o araf. Mae Arriva'n teithio rhyw 80 i 85 y cant o'i filltiroedd a'r prif gyfyngiad ar wella fydd argaeledd gyrrwyr, a fydd yn dal i achosi problemau drwy gydol yr haf. Mae BbaCh yn tueddu i weithredu'n nes at 100 y cant o'u
-

milltiroedd, oherwydd mwy o effaith cludiant ysgol, sydd wedyn yn peri bod bysiau ar gael rhwng adegau prysur yr ysgolion, a defnyddio gyrwyr cylchdeithiau wrth gefn.

GWEITHREDU CENEDLAETHOL A RHANBARTHOL

- 3.3. Mae ymarferwyr wedi gweithio'n agos bob amser ond wedi gwneud hynny'n arbennig drwy gydol y pandemig. Oherwydd y newidiadau angenrheidiol a'u brys, roedd yn anodd ceisio cefnogaeth wleidyddol lawn, er bod swyddogion wedi ymgynghori â'u haelodau arweiniol priodol. Sicraodd cymorth ariannol dan Gynllun Brys Llywodraeth Cymru ar gyfer y Sector Bysiau trwy Drafnidiaeth Cymru bod gweithredwyr wedi gallu dal i gynnig gwasanaethau derbyniol. Mae rhannu'r cymorth hwn a rheoli'r cyllid wedi rhoi baich sylweddol ar yr awdurdod arweiniol (Sir y Fflint). Yn ogystal, yn ystod y trafodaethau hir ar y cynllun BES ac adolygu'r rhwydwaith, bu swyddogion Sir Ddinbych yn mynychu cyfarfodydd cenedlaethol ac yn cynorthwyo cydgysylltu'r ymateb i BES a materion eraill ar ran y rhanbarth.
- 3.4. Gyda'r arian hwnnw a dymuniad Llywodraeth Cymru i fynnu mwy o reolaeth dros wasanaethau bysiau, daeth nifer o ffrydiau gwaith cysylltiedig â diwygio bysiau a rheolaeth ariannol. O flaen cefndir y galwadau ar amser swyddogion wrth geisio parhau'r rhwydwaith a chytuno ar wasanaethau o fewn fframwaith BES, mae materion cenedlaethol a rhanbarthol wedi ychwanegu pwysau sy'n gofyn sylw:
- 3.5. Llwybr Newydd / Yr Agenda Datgarboneiddio
- Y strategaethau trosfwaol hyn sy'n pennu'r sefyllfa ehangach o ran swyddogaeth gwasanaethau bysiau yn y tymor hwy. Bydd angen cryn adlunio gwasanaethau bysiau, fel rhan o ateb cludiant cyfun. Yn y dyfodol, bydd gofyn datblygu gweledigaeth rymus gyda chynllun cyflawni'n gefn iddi.
- 3.6. Sefydlu 'Rhwydwaith Cyfeiriol'
- Mae cynllun BES yn cynnig symud i gyfeiriad sefydlu rhwydwaith cyfeiriol. Dyma'r rhwydwaith sy'n cael cymorth cyllid argyfwng ac a luniwyd i fod yn debyg i'r un cyn yr argyfwng. Yn ei hanfod, mae'n gam tuag at ddatblygu cynnig ar gyfer diwygio'r rhwydwaith. Fodd bynnag, mae'n adlewyrchu newidiadau a gynlluniwyd cyn yr argyfwng, cynaliadwyedd tymor canolig ac argaeledd gyrwyr ac mae'n debygol o fod yn llai dadleuol.
- 3.7. Adolygiad Rhwydwaith Bysiau Gogledd Cymru
- Ledled Cymru, mae Trafnidiaeth Cymru wedi talu am adolygiad eang ac eithaf gwreiddiol gan ymgynghorwyr Arup ac mae hwn wedi datblygu fwyaf yn y Gogledd. Ar hyn o bryd, gan mai drafft yw hwn eto, mae Trafnidiaeth Cymru wedi gofyn peidio â'i rannu'n eang. Bydd rhai goblygiadau helaeth i wasanaethau lleol yn sgil cynlluniau cadarnhaol a negyddol fel ei gilydd a gallent fod yn anodd i aelodau eu derbyn mewn rhai ardaloedd. Oddi mewn, fe all fod lle i

wasanaethau Fflecsi ychwanegol. Bydd y cyfnod ymgynghori â rhanddeiliaid a datblygu cynlluniau cyflawni manwl yn gofyn cyfraniad sylweddol aelodau a swyddogion.

3.8. Llywodraethu

Yn cyd-fynd ag adolygiad Trafnidiaeth Cymru uchod, mae disgwyl newid strwythurau llywodraethu ar draws y sector, gyda goblygiadau i weithredwyr ac, yn anad dim, i awdurdodau lleol. Mae'n ymddangos yn debygol y bydd penderfyniadau ynghylch dylunio rhwydwaith yn cael eu gwneud ar sail ranbarthol neu isranbarthol, gan gyfrannu at ddylunio rhwydwaith ehangach.

3.9. Metro

Er ei fod yn llawer ehangach (i gynnwys y rheilffyrdd), mae'n anochel bod prosiect Metro'n gysylltiedig ag adolygu a diwygio'r rhwydwaith bysiau a llywodraethu sut fydd bysiau'n rhedeg. Bydd angen i rwydweithiau bysiau gyfuno'n llawn gyda dulliau teithio eraill, creu cyfleoedd i gyfnewid a bod yn addas ar gyfer un trefniant tocyn aml-ddull.

3.10. CJC

Mae angen gweld yr uchod yng nghyd-destun y gofyniad i ranbarthu dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Cludiant fydd un o'r meysydd gwasanaeth cynnar i'w cynnwys yn y CJC eginol a bydd angen ystyried goblygiadau hyn i adnoddau awdurdodau lleol.

3.11. Swyddogaeth Trafnidiaeth Cymru

Mae'n fwyfwy amlwg mai Trafnidiaeth Cymru yn hytrach nag awdurdodau lleol sydd â'r adnoddau. Cynyddwyd gallu Trafnidiaeth Cymru'n sylweddol i ddatblygu prosiectau Metro eginol a chynorthwyo datblygu agwedd genedlaethol at rwydweithiau bysiau. Denwyd rhan o'r gallu hwnnw o awdurdodau lleol, gan gynyddu rhai pwysau lleol mewn cynghorau.

GOBLYGIADAU I WEITHREDU RHANBARTHOL

3.12. Ynddynt eu hunain mae'r materion unigol yn 3.5 i 3.11 uchod yn arwyddocaol. Ni ddylid ystyried yr un ohonynt ar wahân ac mae ymateb rhanbarthol cryfach i'r materion hyn yn ofynnol bellach. Ar o bryd mae'r gallu i gyflawni hyn yn gyfyngedig, ond bydd penodi adnodd cludiant rhanbarthol o fewn BUEGC yn gwella rhywfaint ar bethau.

3.13. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi mynegi ei fod yn dymuno gweithredu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Yn ystod yr argyfwng, oherwydd sut y gorfodwyd awdurdodau lleol i ymateb i bwysau dybryd, mae Trafnidiaeth Cymru wedi gallu llywio'r agenda hwnnw. Yn y dyfodol, dylai datblygu blaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth fod ar sail partneriaeth gyfartal, fel bod aelodau etholedig yn cadw eu llais ar rwydweithiau bysiau lleol. Bydd hyn yn

bwysicach fyth wrth i newidiadau llywodraethu ddigwydd ac wrth i wasanaethau masnachol mewn egwyddor ddal i ddibynnu ar gyllid Llywodraeth Cymru. Mae cyllid a deddfwriaeth yn fwyfwy tebygol o gael eu defnyddio i gael mwy o reolaeth dros lwybrau masnachol.

- 3.14. I wneud hyn, mae angen i'r rhanbarth ystyried yn ofalus sut mae'n trefnu ei hun, er mwyn cyflenwi cludiant cyhoeddus seiliedig ar fysiau. Bydd swyddogaeth y grŵp aelodau'n hanfodol ac fe all fod angen cyfarfodydd amlach i arolygu'n ddigonol. Bydd angen peth amser i ystyried datblygu'r agwedd hon a bydd adroddiad gyda rhai cynigion manwl yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod y grŵp ym mis Medi.
- 3.15. Yn y cyfamser, gofynnir i'r aelodau gefnogi'r drefn bresennol, gyda Sir y Fflint yn aros fel yr awdurdod ariannol arweiniol tra bo awdurdod arall (Sir Ddinbych ar hyn o bryd) yn cynorthwyo rhai o'r penderfyniadau gweithredol dybryd ac allweddol, ar ôl ymgynghori â chydweithwyr.

3. Argymhelliad

- 3.1. Bod Aelodau'n ystyried yr agenda anodd ar rwydwaith bysiau yn y rhanbarth ac, wedi ystyried yr angen dybryd am fwy o weithio rhanbarthol a'r pwysau sy'n wynebu'r rhanbarth, bod aelodau'n cael dewisiadau ar gyfer gallu a chyflawni ar gyfer eu cyfarfod ym mis Medi 2021; a
- 3.2. Bod Aelodau, yn y cyfamser, yn awdurdodi swyddogion i ddal i weithio fel y gallant ymladd y pwysau gweithredol sy'n wynebu awdurdodau.

YMATEBION SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro – corff cyfrifol:

Mae'r adroddiad yn amlygu yr heriau sydd yn wynebu cludiant cyhoeddus ar hyn o bryd a'r materion fydd angen sylw. Mae'n briodol fod yr Is Fwrdd yn cymryd y trosolwg rhanbarthol er ffurfio argymhellion posib i'r cyrff penderfynu priodol yn y Cynghorau. Mae'n amserol nodi hefyd y bydd sefydlu Strategaeth Drafnidiaeth Rhanbarthol yn disgyn o fewn cyfrifoldebau cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru o Fis Mehefin 2022. Bydd ymateb i hyn yn ffurfio rhan o waith rhanbarthol ehangach ar sefydlu y corff.

ii. Pennaeth Cyllid – corff cyfrifol:

Cyfrifoldeb pob awdurdod unigol yw materion cyllidebol. Ar hyn o bryd, mae cyllid BES Trafnidiaeth Cymru'n cwmpasu costau gweithredol ychwanegol. Bydd

angen cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol cysylltiedig ag unrhyw newidiadau strwythurol i'r aelodau ar yr adeg briodol – h.y. Is-Fwrdd rhanbarthol Medi 2021 am gyfeiriad, ac yna'r fforwm benderfynu perthnasol ym mhob awdurdod unigol.